RHIFYN
ISSUE
33
23.11.20

Llais Llantrisant

CROESO
WELCOME

Hoffem groesawu Mr Dewi M Jones i staff yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae Mr Jones wedi bod yn gweithio gyda ni trwy asiantaeth fel Cynorthwyydd Addysgu yn Nosbarth 2 yn lle Mrs Lauren Jones. Bu Mr Jones yn llwyddiannus mewn cyfweliad yn yr ysgol yn ddiweddar felly bydd e'n dechrau rôl newydd fel Cynorthwyydd Addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 yn fuan. Gobeithio y bydd Mr Jones yn mwynhau gweithio gyda'r plant.

We should like to welcome Mr Dewi M Jones to the staff. Mr Jones has been working through an agency in Class 2 as a Teaching Assistant this term, covering Mrs Lauren Jones. Mr Jones was successful in a recent interview at school for a Teaching Assistant Post in Key Stage 2. We hope Mr Jones enjoys his time working with the children.



CLYBIAU CARCO CYN AC AR ÔL YSGOL
BEFORE AND AFTER SCHOOL CLUBS

Fel y gwyddoch, ail-agorodd y clybiau carco ddechrau fis Medi. Dyma i chi fanylion y clybiau sydd ar gael yn yr ysgol.

As you will be aware, the before and after school clubs reopened in September. Please find details of the clubs available here.

GOFAL PLANT
CHILDCARE



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

11.12.20 - Cinio Nadolig
Christmas Lunch
11.12.20 - Diwrnod y Siwmperi Nadoligaidd
Christmas Jumper Day
18.12.20 - Diwrnod olaf Tymor yr Hydref
Last Day of Autumn Term
04.01.21 - Dim ysgol i'r plant - 2 ddiwrnod HMS i'r Staff
& 05.01.21 - *No school for the children - 2 Staff INSET days*
06.01.21 - Plant yn Dychwelyd ar gyfer Tymor y Gwanwyn
Children Return for Spring Term

CINIO NADOLIG
CHRISTMAS LUNCH



Bydd cinio Nadolig i'r plant ar ddydd Gwener, Rhagfyr 11eg. Cost y cinio fydd £2.55. Os bydd eich plentyn eisiau cinio Nadolig, gofynnir yn garedig i chi anfon nodyn i'r ysgol erbyn dydd Gwener, Rhagfyr 4ydd er mwyn archebu cinio ysgol. Cewch dalu am y cinio arlein fel arfer. Ni fydd yn bosibl i chi archebu cinio Nadolig wedi'r dyddiad yma gan y bydd y staff arlwyo wedi cwblhau'r archeb ar gyfer y diwrnod hwnnw. Gofynnwn hyn bob blwyddyn yn y gobaith y bydd ffigyrau staff y gegin yn iawn, i fod yn deg iddynt!

Os nag yw'ch plentyn yn cael ciniawau am yr wythnos fel arfer, croeso iddynt fynd yn erbyn y drefn bresennol a chael cinio ysgol dim ond am yr un diwrnod yma os dymunant - Ho! Ho! Ho! Y peth pwysig yw fod pob plentyn yn archebu cinio Nadolig ymlaen llaw trwy anfon nodyn at yr athrawon dosbarth (os ydyn nhw'n cael cinio ysgol bob dydd ai peidio). DOES DIM ANGEN TALU TAN WYTHNOS Y CINIO NADOLIG.

Christmas Lunch for the children will be on Friday December 11th. The cost of this meal is £2.55. If your child would like a Christmas lunch, we kindly ask that you send a note into school to order a Christmas lunch by Friday December 4th please. Remember to pay for this lunch online as usual. ***It will not be possible to order a Christmas lunch after this date as the catering staff would have completed the order for this day.*** *We ask this each year in the hope that the kitchen staff are able to work out numbers and order stock accordingly, to be fair to them!*

If your child does not usually have school lunches each week, they are welcome to break the current arrangements and just have school lunch that day - Ho! Ho! Ho! The most important thing is that each child orders their Christmas lunch beforehand by sending a note to their class teachers (whether they have school lunch every day or not). THERE IS NO NEED TO PAY UNTIL THE WEEK OF THE CHRISTMAS LUNCH.

GWAITH ADEILADU
BUILDING WORKS

Wrth i chi ddarllen ôl-gopïau o Lais Llantrisant, byddwch yn gwybod nad ydym wedi cael defnydd o'r Caban ar iard CA2 ers sbel hiiiiiiiiir ! Wel, mae gennym newyddion da! Y gobaith yw (!) y bydd dau gaban newydd, estyniad i ardd yr ysgol, gazebo newydd a wal ddringo newydd gennym erbyn gwyliau'r Pasg 2021. Pawb i groesi bysedd, os gwelwch yn dda!

Having read previous issues of Llais Llantrisant, you will be aware that we have been without the portakabin on the KS2 yard for a looooooong time ! Well, we have good news! It is hoped (!) that we shall have two new cabins, an extension to the school garden, a new gazebo and a new climbing wall by the Easter holidays 2021. Everyone cross their fingers, please!











Y GRhA
THE PTA

Diolch yn fawr i'r GRhA am drefnu'r gystadleuaeth Calan Gaeaf yn ddiweddar. Gweler isod enillwyr y gystadleuaeth honno.

Many thanks to the PTA for organising the recent Hallowe'en competition. Please see below the winners!









Ewch i / *Remember to visit :* **www.yggglantrisant.cymru**

DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN
CHILDREN IN NEED DAY

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cyfraniadau hael tu hwnt tuag at elusen Plant Mewn Angen eleni. Erbyn 23.11.20, gyda'n gilydd, codon ni £787! Dyma'r swm mwyaf rydym erioed wedi'i godi! Anhygoel o hael! ***Dyma ychydig o luniau o'r plant yn dathlu amrywiaeth ar y diwrnod. Cofiwch fwrw golwg dros yr albwm lluniau ar wefan yr ysgol.***

Many thanks to everyone who contributed to our fundraising for Children in Need this year. By 23.11.20, together, we raised £787! This is the largest amount we have ever raised as a school! Amazing generosity! Below, are a few photographs of the children celebrating diversity on the day. Remember to take a look at the photo album on the school website.






WYTHNOS WRTH-FWLIO
ANTI BULLYING WEEK

O ddydd Llun, Tachwedd 16eg tan ddydd Gwener, Tachwedd 20fed bu'r plant yn brysur iawn yn eu gwersi yn trin a thrafod y pwysigrwydd o ofalu am ein gilydd a chefnogi ein ffrindiau. Gwelwyd llawer o waith da a thrafodaethau call iawn ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol. Braf oedd gweld fod gennym blant sydd yn ystyried teimladau a lles eraill yn ein hysgol ni! Albwm lluniau

From Monday November 16th to Friday November 20th the children were busy in their lessons discussing the importance of caring for others and supporting our friends. We saw a lot of excellent work and very sensible discussions in all classes across the school. It's great to see that we have many caring children in school who consider the feelings and wellbeing of others! Photo album










DIWRNODAU HMS 2020 - 2021
2020 - 2021 INSET DAYS

Ni fydd ysgol i'r plant ar y diwrnodau canlynol gan fod diwrnodau hyfforddiant gan y staff:

There is no school for the children on the following days due to staff training days:

04.01.21	**05.01.21**	**12.04.21**	**19.07.21**	**20.07.21**	**+1 i'w drefnu** *+1 to arrange*

Dilynwch ni / *Follow us :* **@YGGGLlantrisant**